Ysgoloriaeth Geraint George
Urdd Gobaith Cymru

Sefydlwyd yr ysgoloriaeth hon gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri er cof am Geraint George, a oedd yn amgylcheddwr, addysgwr a chyfathrebwr brwd. Roedd wrth ei fodd yn gweithio gyda phobl ifanc a'u hannog i drafod a ffurfio barn am bynciau amgylcheddol yng Nghymru a thu hwnt.

Nod yr ysgoloriaeth flynyddol, sy'n agored i unigolion 18-25 oed, yw meithrin cyfathrebwyr gwych a all helpu pobl yng Nghymru i werthfawrogi'r byd naturiol a deall y ffactorau sy'n effeithio arno.

Gwahoddir cystadleuwyr i anfon gwaith cyfathrebu, mewn unrhyw gyfrwng ac ar unrhyw bwnc amgylcheddol sy'n berthnasol i Gymru. Bydd yr enillydd yn cael dewis un ai ymweld â Pharc Cenedlaethol Triglav yn Slofenia (sydd wedi ei gefeillio â Pharc Cenedlaethol Eryri), neu fynychu cynhadledd Ewroparc a gynhelir mewn gwahanol ran o Ewrop bob blwyddyn. Gwahoddir gwaith ar ffurf unhryw un, neu gyfuniad o'r canlynol:

Ffilm fer (1-3 munud)
Blog (wythnos fan lleiaf)
Eitem sain (1-3 munud)
Erthygl(au) (i fyny at 3)
Cartwnau (i fyny at 6)
Poster(i) (i fyny at 3)
Taflen(ni) (i fyny at 3)
Ysgrif(au) (i fyny at 3)
Stori/Straeon (i fyny at 3)
Neu unrhyw gyfrwng o ddewis yr ymgeisydd

Dylid anfon y gwaith at yr Urdd erbyn 1af Mawrth 2013 naill ai ar ffurf electronig neu ddau gopi caled o'r gwaith. Ceir manylion pellach ar wefan yr Urdd.

PARC CENEDLAETHOL ERYRI
SNOWDONIA NATIONAL PARK

Cyngor Cefn Gwlad Cymru
Countryside Council for Wales